Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briffio 7 munud

# Adolygiad Ymarfer Plant Cryno




## 1 Cefndir

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwent yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Aml-asiantaeth.

Mae'r adolygiad yn ystyried amgylchiadau plentyn benywaidd fu farw yn 8 mis oed. Roedd y plentyn wedi cael diagnosis o gyflwr ar y galon yn gynenedigol, a oedd angen llawdriniaeth ar ôl geni. Roedd tiwb nasogastrig wedi'i osod ar gyfer y drefn bwydo a meddyginiaethau.

Cafodd y plentyn ei osod yn ei chot y noson cyn ei marwolaeth, ac yn y bore fe'i cafwyd yn ddiymateb. Roedd hi wedi marw pan gyrhaeddodd y parafeddygon.

## 2 Cyd-destun

Mae gan y teulu hanes sylweddol o ymwneud ag asiantaethau, a'r cyd-destun oedd cam-drin domestig, trais ac ymddygiad ymosodol yn y gymuned, iechyd meddwl rhieni gwael, defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac wedi'u presgripsiynu, perchnogaeth arfau, anifeiliaid anwes egsotig a chyflyrau cartref gwael.

Roedd gan rieni eu hunain hanes o gyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys tynnu plant eraill o'u gofal ac roeddent wedi profi marw-enedigaeth y flwyddyn cyn geni'r plentyn dan sylw.

Cyn geni Elena, roedd asiantaethau wedi bod yn ymchwilio i honiad o gam-drin rhywiol a wnaed gan blant o fewn y teulu yn erbyn plentyn hŷn o fewn y gymuned a phlentyn arall o fewn y teulu.

## 3 Themâu a nodwyd

**Effaith Pandemig COVID ar ymgysylltu ag asiantaethau â theuluoedd:** Pan oedd y plentyn bron yn 4 mis oed, aeth y wlad i gyfnod clo. Ac fe effeithiodd hynny ar ymweliadau uniongyrchol â theuluoedd. Parhaodd i fod yn wir, serch hynny, bod yr holl angen neu risg hanfodol i'w diwallu gan ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae'n amlwg nad oedd asiantaethau bob amser yn ymwybodol o drefniadau asiantaethau partner ar gyfer cynnal ymweliadau cartref yn ystod y pandemig. **Cadw at Weithdrefnau Diogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:** Roedd adegau pan allai rhannu gwybodaeth fod wedi bod yn fwy cadarn, ac yn cyfiawnhau cyflwyno adroddiadau Dyletswydd i Adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a allai, o'i gosod yng nghyd-destun hanesyddol cyswllt gwasanaethau â'r teulu hwn, fod wedi arwain at agor yr achos ar a sail aml-asiantaeth. **Cyfathrebu, Rhannu Gwybodaeth a Chadw Cofnodion:** Roedd trefniadau cadw cofnodion ar draws yr adrannau Iechyd yn amrywio, sy'n lleihau rhannu gwybodaeth ryngadrannol effeithiol.

## 4 Themâu a Nodwyd

**Ymatebion Asiantaeth i Deuluoedd Cymhleth:** Dylid ystyried hanes teulu o ddangosyddion risg allweddol ochr yn ochr â'r angen a oedd yn cyflwyno. yn yr achos hwn plentyn a oedd ag anghenion iechyd cymhleth. Prin oedd y pwyslais ar y lefel uwch bosibl o risg a achosir gan ychwanegu baban newydd at y teulu.

**Rolau a Chyfrifoldebau:** Nododd gweithwyr proffesiynol y gall y berthynas rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau cymorth, a rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau gwell fel Dechrau'n Deg, arwain at gamsyniadau ynghylch pa wasanaeth yw'r gwasanaeth priodol, a gellir gweld meini prawf trothwy asiantaeth yn rhwystr rhag cael mynediad at wasanaethau ar gyfer teuluoedd cymhleth.

## 5 Ymarfer Cadarnhaol

**Darparu gwasanaethau trwy COVID Pandemig:** Parhaodd darparu gwasanaethau drwy addasu trefniadau ymarfer fel ymateb i'r cymhlethdodau a osodwyd gan ddechrau'r pandemig. Parhaodd rhai gwasanaethau heb unrhyw darfu ar gyswllt uniongyrchol.

**Tîm Bwydo Enterig**: Mae ymweliadau cartref gan y Tîm Bwydo Enterig yn golygu bod goruchwyliaeth broffesiynol o allu'r gofalwyr i gyflawni'r dasg yn y cartref, a staff nyrsio i sefydlu perthynas a all alluogi rhieni.

**Asesiad cymhwysedd:** Mae'r gwaith wedi dechrau i gyflwyno proses adolygu ar waith ac asesiad cymhwysedd ar ymweliad cychwynnol y cartref gan y Tîm Bwydo Enterig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn adolygu'r broses o asesu ar ôl rhyddhau cleifion.

## 6 Dysgu a Gweithredu

Gallai **trefniadau asiantaeth** yn ystod y pandemig, ar gyfer ymateb i deuluoedd sy'n agored i niwed, fod wedi cael eu hyrwyddo'n well ar draws yr holl bartneriaid. Os bydd tarfu sylweddol ar wasanaethau, mae cynlluniau darparu gwasanaethau asiantaeth unigol ar gyfer ymateb i deuluoedd agored i niwed, yn cael eu rhannu ag asiantaethau partner.

**Cyflwyno atgyfeiriadau adroddiadau'r Ddyletswydd i Adrodd**: Mae ymgyrch o'r newydd ar hyfforddiant aml-asiantaethol mewn perthynas â chydnabod ac ymateb i bryderon mewn perthynas ag unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed **ac** am ansawdd y wybodaeth a gyflwynir.

**Amgylchedd cwsg:** Ni chynhaliwyd asesiad o'r amgylchedd cwsg. Dylid hyrwyddo codi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau Ymweliadau Iechyd, o'r gofyniad i gynnal asesiadau amgylchedd cwsg yn unol â'r canllawiau ymarfer cyfredol.

## 7 Dysgu a Gweithredu

**Cyfarfod cynllunio rhyddhau neu amlasiantaethol:** Byddai hyn wedi gwella rhannu gwybodaeth a chydlynu'r newid rhwng gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau yn yr ysbyty. Mewn achosion o fabanod newydd-anedig gydag anghenion iechyd cymhleth, sy'n gofyn am ofal yn y gymuned, mae'r angen am gyfarfod cynllunio rhyddhau aml-asiantaeth i gel ei ystyried a'r penderfyniad a gofnodwyd
**Cofnodion y gwasanaeth iechyd:** Rhoddir ystyriaeth i wella sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi, ei storio a'i rhannu rhwng adrannau Iechyd ac asiantaethau partner.
**Rolau a Chyfrifoldebau:** Dylai fod codi ymwybyddiaeth o ran rolau, a chyfrifoldebau gwasanaethau statudol ac anstatudol.